CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ddydd Mawrth, Tachwedd 28 am 10.30yb yn Ystafell Y Cyngor, Prifysgol Cymru, Bangor.

Presennol: Meri Huws (Cadeirydd); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru); Trefor Fôn Owen (Coleg Harlech/WEA); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Fred Cunnigham (Coleg Llysfasi); Dr Haydn Edwards (Coleg Menai); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Ioan Talfryn (Popeth Cymraeg); Verona Pritchard Jones (Popeth Cymraeg); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); David Jones (Coleg Glannau Dyfrdwy); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Steve Smith (Coleg Iâl); Iwan Davies (Ysgrifennydd)

Ymddiheuriadau: Huw Evans (Coleg Llandrillo Cymru); Yr Athro Michael Scott (NEWI); Dr Ian Rees (Coleg Meirion Dwyfor)

Gweithredu

1. CROESO A RHAGARWEINIAD

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a rhoddodd groeso cynnes i Ifor Gruffydd, Cyfarwyddwr, Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru ac Iwan Davies, Cynorthwyydd Personol i'r Cyfarwyddwr, y ddau wedi dechrau yn eu swyddi ar Dachwedd 1. Eglurodd y Cadeirydd na fydd Ann Jenkins yn gallu dod i'r cyfarfod ond bydd yn ymuno gyda ni am ginio. Bydd cyfle i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr gael cyfarfod gydag Ann Jenkins ar ôl cinio ac fe fydd cwestiynau ar ran y darparwyr yn cael eu rhoi ger bron.

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 8 MEDI 2006

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Medi 2006 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

a) Roedd Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru) yn bresennol yng nghyfarfod 8 Medi 2006.
b) Bydd grŵp y darparwyr yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn a hefyd bydd Is-banelau yn cael eu ffurfio ac yn cyfarfod yn rheolaidd.

c) Eglurodd y Cadeirydd ein bod dal i ddisgwyl am dempled Trydydd Parti, HE yn mynegi bod hyn yn fwy o waith i'r darparwyr. Bydd angen perthynas glir rhwng y Ganolfan a'r darparwyr. ***Penderfynwyd y dylai IG gysylltu â'r Cynulliad am hyn oni chlywir unrhyw beth cyn diwedd Ionawr 2007.*** **IG**

ch) Mynegwyd pryderon am yr oedi cyn clywed am y dyraniadau ariannol. ***IG i gysylltu â'r Cynulliad oni chlywir unrhyw beth erbyn Chwefror 2007*** **IG**

d) Eglurodd IG sut y bydd y Ganolfan yn gobeithio ariannu'r project a hefyd parhau ymhen blynyddoedd i ddod. Y bwriad yw defnyddio'r tan wariant er mwyn ariannu parhad y project.

(i) SEFYLLFA STAFFIO'R GANOLFAN

Gobeithir y bydd holl staff y Ganolfan wedi eu penodi erbyn diwedd y mis – yn disgwyl cadarnhad fod y Swyddogion Datblygu wedi derbyn eu swyddi. Rheolwr Data, 2 Ysgrifenyddes wedi dechrau gweithio yn y Ganolfan, bydd y Swyddog Hyfforddi ac Ansawdd yn dechrau 1 Rhagfyr 2006**.** ***IG i anfon manylion staff at y darparwyr – er gwybodaeth.*** **IG, ID**

Mynegodd rhai o'r darparwyr y dylai'r ansawdd fod ynghlwm wrth Fframwaith Cenedlaethol Estyn – swyddogaeth y Swyddog Hyfforddi ac Ansawdd fydd hyn. Derbyniwyd hynny. **IG**

(ii) SWYDDOG DYSGWYR SIR Y FFLINT 2007

Adroddwyd fod David Jones wedi dechrau yn ei swydd a bydd IG yn cyfarfod gydag ef ddiwedd yr wythnos. Bydd rhaglen waith yn cael ei threfnu ar gyfer wythnos yr Eisteddfod. Swydd blwyddyn fydd hon yn y lle cyntaf tan ddiwedd yr Eisteddfod. Awgrymodd y Cadeirydd efallai y dylem ystyried ymestyn y swydd tan ddiwedd Tachwedd 2007 er mwyn cael adborth. ***IG i drafod hyn gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol***. **IG**

Mynegodd HE bod Coleg Menai wedi penodi Swyddog Dysgwyr ar gyfer Eisteddfod Eryri 2005 ond bod y person wedi parhau mewn swydd gyda'r coleg ar ôl yr Eisteddfod.

4. CYNLLUN STRATEGOL

Eglurodd IG y ddogfen yn fanwl, a gwahoddwyd adborth gan yr aelodau erbyn dydd Iau, 30 Tachwedd 2006. Gofynnwyd am gadarnhad gan yr holl ddarparwyr o'r ffigyrau ymrestriad cyn gynted â phosibl. Fel rhan o'r drafodaeth, codwyd y pwyntiau a gwnaed y penderfyniadau canlynol:-

a) Tra'n derbyn y fersiwn a gyflwynwyd cytunwyd dylid cael y Datganiad Cenhadaeth symlach yn y ddogfen ym mis Mai 2007 sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth a hefyd dylid ychwanegu darn yn y nodau ac amcanion ar ran y darparwyr. Dylai'r amcanion fod yn ychwanegol at amcanion corfforaethol pob darparwr unigol.

b) SS yn awgrymu y dylid cyfarfod gyda'r darparwyr i drafod Cymraeg i Oedolion gan fod dyfodol dysgu yn y gymuned yn fregus

c) TFO yn datgan fod angen cefnogaeth i fyfyrwyr. Nododd IG fod rhanbarth Morgannwg wedi dangos diddordeb yn y maes yma.

ch) Argymhellodd IG na ddylid gosod unrhyw dargedau ac y dylid cynnal ymchwil i'r maes a sicrhau data cefndirol cyn pennu unrhyw dargedau.

d) SS yn awgrymu y dylem gyd-weithio gyda'r Canolfannau eraill yng Nghymru ac efallai creu targedau meintiol.

dd) Crybwyllwyd y posibilrwydd o greu Grŵp Ansawdd i arwain datblygiadau mewn rheoli ansawdd. Nododd IG fod Is-banel wedi ei ffurfio gan y Panel Darparwyr.

e) Bydd unrhyw benderfyniadau Strategol yn cael eu cyfeirio/trafod yn y Grŵp Strategol.

f) O ran cyflwyno data am ddysgwyr bydd y Cyfarwyddwr/Rheolwr Data yn trafod gofynion gyda'r darparwyr, ond disgwylir mwy o arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y flwyddyn newydd.

ff) Awgrymodd IG na ddylid dyblygu gwaith marchnata darparwyr – yn hytrach dylid canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth. Y bwriad yw llunio gwefan gyda phrosbectws electroneg efo manylion cyrsiau pob darparwr. Yr adwaith gan y darparwyr yw bod safle gwe yn syniad da. Awgrymodd JO'R y dylem gydweithio yn agos gydag asiantaethau eraill a'r cyfryngau. Derbyniwyd awgrym IG **IG**

g) Awgrymodd IG y bwriad o gyd-weithio gyda'r Ganolfan yng nghanolbarth Cymru ynglŷn â phrosiect ymchwil farchnata. ***Cytunwyd y dylai IG drefnu hyn.*** **IG**

h) Cynigiodd HE fod y darparwyr yn derbyn y ddogfen fel datganiad Interim. ***Copi terfynol o'r ddogfen at y darparwyr.*** **IG, ID**

i) Dylid creu modiwl Cymraeg I Oedolion fel rhan o hyfforddiant athrawon. ***IG i ymchwilio.*** **IG**

l) Hyfforddiant – pwysig peidio dyblygu beth sydd eisioes yn cael ei gynnig gan ddarparwyr unigol. Hyn i'w ystyried wrth lunio'r Cynllun Hyfforddi. **IG**

m) Mynegwyd pryder am ddiffyg cyfeiriad at gyllido'r ddarpariaeth, a hynny o ran parhad y prosiect ar ôl Gorffennaf 2008, a diffyg arian twf. ***IG i gynnwys cyfeiriad at hyn.*** **IG**

5. GWEITHGOR Y DARPARWYR

Rhoddodd RMcC adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener, 24 Tachwedd 2006.

- Angen arweiniad ar sut i ymdrin â gweithleodd.
- Angen sefydlu system i dracio dysgwyr.
- Cytundeb mai codi ymwybyddiaeth a chodi proffil y maes yw swyddogaeth y Ganolfan, nid marchnata uniongyrchol.
- Swyddogion Datblygu'r Ganolfan i gynnal Is-baneli'r Panel.
- Pam Evans-Hughes wedi ei henwebu'n gynrychiolydd y Panel ar y Grŵp Strategol.

6. HYFFORDDIANT

Wedi ei drafod yn flaenorol o dan Gynllun Strategol.

7. MARCHNATA

Y bwriad fydd lansio'r logo yn Ebrill 2007 gan fod angen trafodaeth bellach ar liwiau'r logo. Ni fydd prosbectws y darparwyr yn cynnwys y logo.

(i) SWYDDOGAETH Y CCC

- Codi ymwybyddiaeth ar lefel Genedlaethol.
- Lansio'r logo ym mis Ebrill 2007.

(ii) GWEITHGAREDDAU RHANBARTHOL

- Darparwyr yn parhau i farchnata yn unigol (ac mewn parterniaeth lle fo hynny'n briodol). **Darparwyr**
- Prosbectws electroneg ar gyfer y rhanbarth i'w ddatblygu ar wefan y Ganolfan. **IG**
- Ymchwil farchnata i gael data meintiol ac ansawdd. **IG**

8. STRWYTHUR CYRSIAU NEWYDD CYMRAEG I OEDOLION

Rhannwyd canllawiau i'r darparwyr ynglŷn â labelu'r cyrsiau, a gofynnwyd i aelodau gysylltu â'r Ganolfan am ragor o wybodaeth os bydd angen.

9. U.F.A.

Bydd rhaid trefnu rhaglen gyfarfod o gyfarfodydd cyn y Nadolig, **i'w hanfon at yr holl ddarparwyr.** **IG, ID**

Rhaid dosbarthu cofnodion Gweithgor y Darparwyr at yr holl ddarparwyr. **IG, ID, RMcC**

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bore Mercher, 28 Mawrth 2006, Neuadd Powis, Prif Adeilad, Prifysgol Cymru, Bangor am 10.30yb.